**Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona – Cyfarfod Rhithwir ar Teams, Dydd Mawrth 15 Mawrth am 12:30**

1. **Yn bresennol:**

**Senedd Cymru – Welsh Parliament**

John Griffiths – Cadeirydd, Aelod o’r Senedd (AS) (Llafur)
Alun Davies – Aelod o'r Senedd (AS) (Llafur)
Janet Finch-Saunders – Aelod o’r Senedd (AS) (Y Ceidwadwyr Cymreig)
Rhys ab Owen – Aelod o’r Senedd (AS) (Plaid Cymru)
Naomi White – Swyddfa John Griffiths AS (Llafur)
Ellie Richards – Swyddfa Luke Fletcher AS (Plaid Cymru)
Leanne Parsell – Swyddfa Elizabeth Buffy Williams AS (Llafur)
Andrew Jenkins – Swyddfa Sioned Williams AS (Plaid Cymru)
Ryland Doyle – Swyddfa Mike Hedges AS – (Llafur)
Dora Szalkay – Swyddfa Huw Irranca-Davies (Llafur)
Ioan Bellin – Swyddfa Rhys Ab Owen AS (Plaid Cymru)
Andrew Bettridge – Uwch-swyddog Cyfathrebu, Swyddfa John Griffiths AS

**Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a’u staff**
Jeff Cuthbert – Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent
Andy Dunbobbin – Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

**Prif Gwnstabliaid a’u staff**
Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru, a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru
Paul Morris – Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu
Alun Davies – Uned Gyswllt yr Heddlu
Lynda Young – Uned Gyswllt yr Heddlu, Ysgrifennydd y Grŵp
Nicky Ryan – Arweinydd Cymru, Ffederasiwn yr Heddlu

**Gwahoddedigion**
Gary Haggaty – Dirprwy Gyfarwyddwr – Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

2. **John Griffiths AS, Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod, gan bwysleisio bod y cyfnod hwn wedi bod yn un anodd iawn a bod y pandemig wedi bod yn her enfawr o ran darparu’r ystod gyfan o wasanaethau cyhoeddus.

Cyflwynodd y Cadeirydd Jeff Cuthbert, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent; a Jeremy Vaughan, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru. Eglurodd mai bwriad y cyfarfod oedd rhoi cyfle i Aelodau o’r Senedd drafod pwysau’r gaeaf ac effaith y pwysau hwn ar blismona yng Nghymru.

3. **Jeff Cuthbert – Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent**

Diolchodd Jeff Cuthbert i'r Cadeirydd a chroesawodd bawb i'r cyfarfod. Nododd fod ymddiheuriadau wedi dod i law ar ran Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys a Chadeirydd y Grŵp Plismona yng Nghymru, gan nad oedd Dafydd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd Jeff Cuthbert y byddai'n cynrychioli Dafydd Llywelyn yn y cyfarfod hwn, a hynny yn rhinwedd ei rôl fel dirprwy Gadeirydd y Grŵp Plismona yng Nghymru ac yn sgil y ffaith y byddai'n cymryd yr awenau fel Cadeirydd y Grŵp Plismona yng Nghymru ym mis Mehefin.

Dywedodd Jeff Cuthbert mai thema'r cyfarfod hwn fyddai llif cleifion, pwysau'r gaeaf, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar blismona yng Nghymru. Dywedodd y byddai'r cyfarfod yn gyfle i gael trosolwg o'r effaith y mae'r gaeaf wedi'i chael ar blismona, ac i drafod sut y byddai modd i bawb ddechrau cynllunio er mwyn gwella'r sefyllfa ar gyfer y gaeaf nesaf.

Gan bwysleisio nad oedd unrhyw sylw a fyddai'n cael ei wneud yn y cyfarfod hwn yn feirniadaeth ar unrhyw wasanaethau cyhoeddus eraill, nododd y Comisiynydd Cuthbert fod y mater hwn yn ymwneud â phwysau ar yr holl wasanaethau cyhoeddus. Dywedodd hefyd nad oedd hyn yn berthnasol i Gymru yn unig, gan fod gwasanaethau plismona ar draws y DU yn wynebu yr un sefyllfa.

Mae'r GIG yng Nghymru wedi wynebu pwysau difrifol – yn enwedig Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Adroddwyd ar nifer o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid i wasanaethau plismona estyn cymorth. Byddai'r digwyddiadau hynny yn cael eu trafod mewn mwy o fanylder gan Jeremy Vaughan, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru. Mae popeth wedi gwaethygu yn sgil pandemig COVID-19, a'r gobaith yw ein bod yn dod allan o'r cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Comisiynydd Cuthbert bwysigrwydd cynllunio ar gyfer y sefyllfa waethaf a bwrw ymlaen â'r gwersi a ddysgwyd.

Ychydig fisoedd yn ôl, galwodd Pwyllgor iechyd y Senedd am dystiolaeth ynghylch effaith y gaeaf a phwysau'r pandemig ar wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau brys. Anfonodd Penaethiaid a Chomisiynwyr yr Heddlu lythyr ar y cyd at y Cadeirydd yn nodi eu pryderon ym maes plismona.

Codwyd y pryderon hyn yn y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys (JESG), ac mewn cyfarfodydd dwyochrog gyda Dafydd Llywelyn, Cadeirydd y Grŵp Plismona yng Nghymru, a Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol. Codwyd y pryderon hyn hefyd ym Mwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, dan Gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, a chyda Gweinidogion, swyddogion a gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill megis llywodraeth leol ac iechyd y cyhoedd. Mae gan blismona gynrychiolaeth ar dasglu Llywodraeth Cymru ar weithrediadau'r gaeaf. Felly, mae dealltwriaeth lawn ynghylch sut yr ymdrinnir â'r mater hwn a'r gwaith partneriaeth sydd angen ei wneud o ran cynllunio a nodi materion ar gyfer y dyfodol.

Nododd y Comisiynydd Cuthbert fod y Prif Gwnstabliaid yn pryderu'n fawr ynghylch yr effaith ar blismona. Yn hwyr yn 2021, comisiynwyd dadansoddiad o'r galw i weld yn union sut y mae hyn yn effeithio ar blismona yng Nghymru – er enghraifft, yr amser a dreulir gan swyddogion yn ymdrin â galw sydd wedi'i ddadleoli.

Pwysleisiodd bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, a thynnodd sylw at y ffaith bod plismona yn wasanaeth a gedwir yn ôl – hynny yw, nid yw wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, yn wahanol i wasanaethau'r holl bartneriaid allweddol sy'n gweithredu yn y maes hwn, sydd wedi'u datganoli. Boed hynny ar lefel leol drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, neu ar lefel Genedlaethol drwy'r Bwrdd Partneriaeth Plismona, mae gwasanaethau plismona yng Nghymru yn gweithio fel petaent yn wasanaethau sydd wedi'u datganoli, gan roi materion yn ymwneud â statws cadwedig neu statws datganoledig o'r neilltu, fel y gall pobl Cymru elwa ar adnoddau a rennir a chynllunio ar y cyd.

Cyflwynodd Jeff Cuthbert Jeremy Vaughan, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, i drafod y goblygiadau o ran plismona gweithredol.

4. **<u>Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru</u>**

Cyflwynodd y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan ei hun fel Cadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru a'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys (JESG). Croesawodd y Prif Gwnstabl bawb i'r cyfarfod, gan ddiolch iddynt am roi'r cyfle iddo wneud cyflwyniad.

Ailadroddodd y Prif Gwnstabl Vaughan sylwadau y Comisiynydd Cuthbert ynghylch y ffaith nad bwriad y sesiwn hon oedd beirniadu unrhyw un. Cadarnhaodd y ffaith bod hwn yn gyfnod digynsail ar adeg brysur iawn i'r gwasanaethau cyhoeddus, a bod yr ymateb cyfunol wedi bod yn un eithriadol, gyda phobl yn gweithio'n galed iawn ac yn cydweithio'n dda. Roedd hwn yn fwy o gyfle i dynnu sylw'r aelodau ar faterion plismona na ellir eu gweld, o bosibl. Ychwanegodd fod y materion a oedd yn mynd i gael eu disgrifio yn rhai anodd a systemig, a'u bod wedi bod yn destun trafodaethau â Phrif Weithredwyr eraill.

Roedd y Prif Gwnstabl Vaughan am godi pryderon ynghylch yr amser y mae staff yr heddlu yn ei dreulio yn ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut mae hynny wedi cynyddu yn ystod y gaeaf hwn. Yn bwysicach fyth, roedd yn bryd edrych ymlaen gyda'n gilydd at y cynlluniau ar gyfer yr hydref a'r gaeaf nesaf, er mwyn sicrhau bod ambiwlansys yn cyrraedd y cleifion hynny sydd mewn angen.

Dros ddau ddiwrnod ym mis Hydref 2021, cynhaliwyd dadansoddiad o'r galw, yn canolbwyntio ar faterion hollbwysig. Cafodd **110 o ddigwyddiadau** eu cofnodi, a chafodd y wybodaeth a ganlyn ei datgelu:

- Mewn **14 y cant** o ddigwyddiadau, cafodd cleifion eu cludo i'r ysbyty gan swyddogion.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod llawer o astudiaethau achos yn dangos hyn, gan nodi bod llu o resymau pam y byddai hynny'n digwydd o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, tynnodd sylw at y ffaith nad yw cerbyd heddlu yn gerbyd priodol iawn ar gyfer cludo person sy'n sâl ac angen cymorth meddygol.

- Mewn **15 y cant** o ddigwyddiadau, treuliodd swyddogion gyfnod diangen yn aros am Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – sef 50 o swyddogion yn aros cyfanswm amcangyfrifedig o 45 awr.

Roedd y Prif Gwnstabl Vaughan yn cydnabod bod gwasanaethau ambiwlans dan bwysau i gategoreiddio digwyddiadau yn nhrefn blaenoriaeth. Ychwanegodd mai'r gwasanaethau dan sylw yw'r arbenigwyr proffesiynol yn hynny o beth, ac nid oedd yn bwriadu eu beirniadu mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, roedd gwasanaethau plismona yn teimlo weithiau bod diffyg alinio o ran digwyddiadau yr ymddengys fod angen ymateb brys iddynt, a bod hyn yn rhoi swyddogion mewn sefyllfa anodd ar adegau.

- Mewn **25 y cant** o ddigwyddiadau, roedd y broses o gefnogi Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi atal yr heddlu rhag ymgymryd â gweithgarwch plismona traddodiadol.

Mewn chwarter o'r digwyddiadau hynny, nid oedd swyddogion yr heddlu yn gallu ymdrin â galwadau eraill gan fod swyddogion yn ymdrin â pherson yr oedd angen sylw a gofal meddygol arno.

- Mewn **27 y cant** o ddigwyddiadau, roedd y cais am bresenoldeb yr heddlu yn amhriodol, yn ôl gwaith dadansoddi yr heddlu.

Dangosodd y Prif Gwnstabl Vaughan sleid yn rhoi cipolwg o rai achlysuron pan gafodd swyddogion eu galw i ymdrin ag argyfyngau meddygol, lle nad oedd unrhyw ddewis ond gofyn i wasanaethau plismona gamu i'r adwy.

Dywedodd fod gofyniad ar yr heddlu i atgyfeirio achosion i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) os oes unrhyw farwolaeth yn dilyn cyswllt â'r heddlu, unrhyw ymosodiad difrifol honedig gan swyddogion yr heddlu sy'n defnyddio grym, unrhyw fater o lygredd honedig, neu, yn wir, unrhyw fater arall y gellid ei ystyried yn fater sy'n ymwneud â budd y cyhoedd.

Mae mwyafrif helaeth y materion a gaiff eu cyfeirio at yr IOPC yn cael eu cyfeirio yn ôl at wasanaethau plismona, a hynny at ddibenion cynnal ymholiadau. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae ymddygiad swyddogion wedi bod yn gwbl ddi-fai. Fodd bynnag, os ydych yn swyddog sy'n destun atgyfeiriad, mae hynny'n ychwanegu'n sylweddol at eich lefelau straen, gan eich bod yn ymwybodol bod corff annibynnol yn mynd i gynnal ymchwiliad. Gall rhai o'r ymholiadau hynny fod yn gymhleth ac yn hirfaith, yn enwedig pan fo unigolyn wedi colli ei fywyd. Fel Prif Gwnstabl, mae hyn yn peri cryn bryder, gan fod lefel y problemau iechyd meddwl bellach yn uwch nag erioed.

Nododd y Prif Gwnstabl Vaughan fod hyn hefyd yn ychwanegu at lefelau straen sylweddol staff ymatebol y gwasanaeth ambiwlans, gan eu bod yn gwybod nad oes modd iddynt gyrraedd y digwyddiadau y mae angen iddynt eu cyrraedd, neu maent yn cyrraedd llawer yn hwyrach nag y byddent wedi dymuno. Mae hyn cael effaith sylweddol ar eu hiechyd a'u lles, ac felly mae'r sefyllfa hon yn her wirioneddol i bawb.

Nododd y Prif Gwnstabl Vaughan y bu trafodaethau sylweddol yn y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys a chyda Phrif Weithredwr GIG Cymru, sydd wedi ymgysylltu’n frwd ar y mater. Lansiwyd rhaglen ailosod genedlaethol ar 2 Mawrth 2022, a hynny am gyfnod o bythefnos. Mae penaethiaid yr heddlu yn edrych ymlaen at glywed canlyniadau’r rhaglen honno.

Tynnodd y Prif Gwnstabl Vaughan sylw at y darlun nodweddiadol o giw o ambiwlansys yn aros y tu allan i adran damweiniau ac achosion brys, gyda staff ambiwlans yn eistedd gyda chleifion, yn aros iddynt gael eu trosglwyddo i’r adran damweiniau ac achosion brys, ond nid oes modd eu derbyn oherwydd bod ganddynt eu hanawsterau eu hunain. Er bod y darlun wedi gwaethygu yn sgil COVID-19, mae hon yn broblem a drafodwyd eisoes ac yn broblem sy’n dod i’r amlwg bob blwyddyn.

Roedd y Prif Gwnstabl Vaughan yn gobeithio bod y cyflwyniad wedi rhoi darlun defnyddiol o'r problemau y mae gwasanaethau plismona yn eu hwynebu ledled Cymru, ond heb fod yn feirniadol o unrhyw gydweithwyr mewn gwasanaethau eraill.

5. **Cwestiynau a thrafodaeth**

6. **John Griffiths AS – Cadeirydd**

Agorodd John Griffiths y cyfarfod i fyny, gan wahodd cwestiynau a sylwadau. Gofynnodd i’r Prif Gwnstabl Vaughan a’r Comisiynydd Cuthbert sôn am y strwythurau a’r mecanweithiau sy’n caniatáu i’r heddlu archwilio’r materion hyn, ynghyd â’r Gwasanaethau Ambiwlans a’r GIG, ac o bosibl Llywodraeth Cymru.

7. **Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru**

Tynnodd y Prif Gwnstabl Vaughan sylw at y ffaith bod yr heddlu, mewn ymateb i argyfwng uniongyrchol, yn cymhwyso’r Ddeddf Argyfyngau Sifil. Golyga hyn fod gan wasanaethau plismona rôl gydgysylltu wrth ddod â phartneriaid ynghyd ar ffurf grŵp cydgysylltu strategol, a hynny er mwyn rhoi cynlluniau tactegol ar waith i liniaru'r broblem dan sylw. Mae'r grwpiau hyn yn tueddu i weithredu ar sail ardal heddlu.

Dywedodd hefyd fod y strwythur ar gyfer argyfyngau sifil yn un da iawn o ran sicrhau ymateb uniongyrchol i broblem uniongyrchol fel llifogydd, damwain trên neu ddamwain awyren. Dywedodd fod y strwythur wedi gweithio’n dda mewn perthynas â COVID-19, er ei fod wedi cael ei brofi gan y pandemig, gan nad oes unrhyw lyfr rheolau ar gael ar gyfer ymateb i bandemig iechyd byd-eang. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn mor effeithiol wrth ymdrin â materion systemig. Mae gwasanaethau plismona yng Nghymru wedi uwchgyfeirio’r ymateb partneriaeth i’r lefelau uchaf, gan gynnwys Prif Weithredwr GIG Cymru, yn y gobaith y bydd cynlluniau da yn cael eu rhoi ar waith ar lefel leol. Mae gwasanaethau plismona wedi rhoi tystiolaeth i bwyllgorau ac ymchwiliadau a gynhelir ar y mater hwn, ac wedi codi’r materion dan sylw yng nghyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, gyda Gweinidogion yn gweithredu fel partïon cefnogol â diddordeb.

Cafodd y Grŵp Pwysau'r Gaeaf ei greu er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Clywodd y grŵp y newyddion diweddaraf am faterion gofal cymdeithasol gan gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, ac am faterion tai ac ati gan awdurdodau lleol.

8. **Jeff Cuthbert – Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent**

Cadarnhaodd y Comisiynydd Cuthbert y ffaith bod y materion hyn, ar lefel leol, hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhelir gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys Iechyd, er mwyn trafod pwysau lleol a materion lleol. Fodd bynnag, pwysleisiodd y ffaith bod y materion penodol hyn, a materion allweddol eraill, yn cael eu cyflwyno'n bennaf i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, gan gynnwys Gweinidogion a phartneriaid allweddol. Mae'r holl fecanweithiau yn eu lle. Mater ydyw, felly, o feithrin yr awydd a'r symbyliad i wneud i'r system weithio'n well.

9. **John Griffiths AS – Cadeirydd**

Cydnabu'r Cadeirydd y gall y symbyliad hwnnw ddod oddi wrth y partneriaid dan sylw, ond gofynnodd a oedd hyn yn fater i'r Llywodraeth hefyd.

10. **Jeff Cuthbert – Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent**

Cadarnhaodd y Comisiynydd Cuthbert hyn, gan nodi fod gwasanaethau plismona yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, er bod gwasanaethau plismona yn atebol i'r Swyddfa Gartref yn ffurfiol. Er gwaethaf hyn, mae'r Swyddfa Gartref yn cydnabod ei bod yn hanfodol i wasanaethau plismona gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru sy'n arwain yn uniongyrchol ar faterion datganoledig fel gwasanaethau ambiwlans, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus, felly mae'r trefniant partneriaeth hwnnw'n hollbwysig.

11. **Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru**

Ailddatganodd y Prif Gwnstabl Vaughan y cynnig ar gyfer y cynllun 'Ride Along'. Nododd fod hwn yn gynnig parhaus i bob Aelod o'r Senedd gan bob un o'r pedwar gwasanaeth heddlu yng Nghymru. Bu'n anodd rhoi'r cynllun hwn ar waith yn ddiweddar yn sgil COVID-19, ond mae'r cynnig hwn bob amser ar gael.

12. **Alun Davies – Aelod o'r Senedd (AS) (Llafur)**

Pwysleisiodd Alun Davies AS bwysigrwydd rhannu gwybodaeth â phob Aelod o'r Senedd am y cynnig ar gyfer y cynllun 'Ride Along', a hynny er mwyn rhoi cyfle iddynt gysylltu â'u gwasanaeth heddlu lleol, yn enwedig gan ein bod yn dod allan o'r pandemig ac ar drothwy misoedd yr haf.

13. **Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru**

Dywedodd y Prif Gwnstabl Vaughan y byddai'n cymryd camau i ailddatgan y cynnig, gan nodi'r hyn y mae'r cynllun yn ei olygu. Yna, gellir ei anfon at bob Aelod o'r Senedd.

10. **Jeff Cuthbert – Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent**

Rhoddodd y Comisiynydd Cuthbert gyfle i Aelodau o'r Senedd ofyn unrhyw gwestiynau mewn perthynas â phlismona. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau ar y diwrnod.

11. **Sylwadau i gloi - John Griffiths AS – Cadeirydd**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod. Dywedodd fod y cyflwyniad wedi rhoi trosolwg gwych o'r pwysau y mae gwasanaethau plismona a gwasanaethau cyhoeddus wedi'u hwynebu yn ystod y gaeaf anodd hwn, gyda rhai materion allweddol wedi dod i'r amlwg.

Fel bob amser, pwysleisiodd fod croeso i unrhyw un gysylltu cyn y cyfarfod nesaf er mwyn nodi unrhyw sylwadau neu syniadau dilynol mewn perthynas â'r cyfarfod heddiw neu'r cynllun 'Ride Along'.